## GORCHYMYN GWYRIAD LLWYBR CYHOEDDUS

## DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 ADRAN 257

## HYSBYSIAD TRAFFIG DROS DRO
## (DARGYFEIRIO LLWYBR TROED 55 LLANGRALLO UCHAF)
## DARGYFEIRIO LLWYBR CYHOEDDUS RHIF 2 2025

Gwneir y Gorchymyn hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (“yr Awdurdod”) dan adran 257 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 oherwydd y mae'n fodlon bod angen dargyfeirio’r llwybr troed sy'n ymwneud â'r Gorchymyn hwn er mwyn galluogi gwaith datblygu yn unol â chaniatâd cynllunio a ddyfarnwyd dan Rhan III, Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990:-

Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) ar gyfer fferm solar arfaethedig a datblygiad ategol (Ty'n y Waun Solar) (DNS/3279521).

**DRWY’R GORCHYMYN HWN:**

1. Bydd y llwybr troed dros y tir a leolir yn Heol-y-Cyw, Pen-y-bont ar Ogwr ac a ddangosir gan linellau di-dor trwm ar y map sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn ac a ddisgrifir yn Rhan 1 yr Atodlen drwy hyn yn cael ei gau ymhen 28 diwrnod o ddyddiad cadarnhau'r Gorchymyn hwn.

2. Ar ddiwedd 28 diwrnod o ddyddiad cadarnhau’r Gorchymyn hwn, bydd llwybr cyhoeddus dros y tir wedi’i leoli yn Heol-y-Cyw, Pen-y-bont ar Ogwr fel y disgrifir yn Rhan 2 Atodlen y Gorchymyn hwn ac y dangosir gan linell doredig drwchus ar y map sydd ynghlwm wrth y gorchymyn hwn.

3. Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd am y Gorchymyn dalu'r costau sy'n gysylltiedig â gwneud y Gorchymyn hwn.

4. Pan fo cyfarpar o dan, yn, ar, dros, ar hyd neu ar draws y llwybr, yn union cyn dyddiad dargyfeirio’r llwybr, sy'n perthyn i ymgymerwyr statudol er mwyn cyflawni eu hymrwymiad, bydd yr ymgymerwyr yn parhau i fod â'r un hawliau o ran y cyfarpar ag a fyddai ganddynt wedi hynny.

Gosodwyd **SÊL GYFFREDIN** )
**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL** )
**PEN-Y-BONT AR OGWR** yma )
ar 2025
ym mhresenoldeb:-

……………………………………Llofnodwr Awdurdodedig

# ATODLEN
# RHAN 1
# DISGRIFIAD O SAFLE'R LLWYBR NEU FFORDD BRESENNOL

Y rhan honno o Lwybr Troed 55 Llangrallo Uchaf sy'n dechrau ym Mhwynt A (Cyfeirnod Grid SS 9362 8465) ac yn parhau i gyfeiriad cyffredinol y de am 185 metr hyd at Bwynt B (Cyfeirnod Grid SS 9365 8447), ac yna'n parhau i gyfeiriad cyffredinol y de-ddwyrain am 250 metr hyd at Bwynt C (Cyfeirnod Grid SS 9381 8429) lle mae'n ymuno â Llwybr Troed 37.

Cyfanswm hyd y rhan o'r Llwybr Troed sydd i'w ddargyfeirio yw tua 435 metr. Nid oes diffiniad o'r lled.

# RHAN 2
# DISGRIFIAD O SAFLE'R LLWYBR NEU FFORDD NEWYDD

Mae'r llwybr yn dechrau wrth y gyffordd â Llwybr Troed 37 ym Mhwynt D (Cyfeirnod Grid SS 9395 8439) ac yn parhau i'r gorllewin am 8 metr hyd at Bwynt E (Cyfeirnod Grid SS 9395 8440), yna'n parhau i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-ogledd-orllewin am 201 metr hyd at Bwynt F (Cyfeirnod Grid SS 9386 8458) cyn parhau i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-ddwyrain am 19 metr hyd at Bwynt G (Cyfeirnod Grid SS 9387 8459). Yna mae'n parhau i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-ogledd-orllewin ar hyd ffin cae am 99 metr hyd at Bwynt H (Cyfeirnod Grid SS 9382 8467), yna'n troi i'r gorllewin ac yn parhau am 195 metr hyd at Bwynt I (Cyfeirnod Grid SS 9363 8463) yna'n troi i'r gogledd-ogledd-orllewin ac yn parhau am 22 metr i ailymuno â Llwybr Troed 55 wrth Bwynt A (Cyfeirnod Grid SS 9362 8465).

Hyd bras y llwybr dargyfeirio yw 544 metr. Y lled arfaethedig yw 1.4 metr.

# RHAN 3
# CYFYNGIADAU AC AMODAU

Bydd y Llwybr Troed yn cael ei gyfyngu gan gât cae i BS 5709:2018 ym Mhwynt E (Cyfeirnod Grid SS 9395 8440), a dwy gât cerddwyr i BS 5709:2018 ym Mhwynt $X_1$ (Cyfeirnod Grid SS 9364 8463) a Phwynt $X_2$ (Cyfeirnod Grid SS 9364 8463).





Cyngor Bwrdeistref Sirol
Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND
County Borough Council

*Janine Nightingale*
*Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau*

Swyddfeydd Dinesig,
Stryd yr Angel,
Pen-y-bont ar Ogwr,
CF31 4WB
Ffôn (01656) 643643


**GORCHYMYN GWYRIO LLWYBR CYHOEDDUS ARFAETHEDIG**
**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 ADRAN 257**
**PEN-Y-BONT AR OGWR CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**
**(DIVERSION OF FOOTPATH 55 LLANGRALLO UCHAF)**
**GORCHYMYN GWYRIO LLWYBR CYHOEDDUS ARFAETHEDIG**
**RHIF 2 2025**

N
W E
S

GRADDFA 1: 1600

DYDDIAD : 26/08/2025


**©Crown Copyright and database right 2025. Ordnance Survey AC0000851951. Use of this data is subject to terms and conditions.**

**©Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2025. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans AC0000851951. Mae defnydd o'r data hwn yn ddarostyngedig i delerau ac amodau.**

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

# HYSBYSIAD TRAFFIG DROS DRO
# (DARGYFEIRIO LLWYBR TROED 55 LLANGRALLO UCHAF)
# DARGYFEIRIO LLWYBR CYHOEDDUS RHIF 2 2025

K Watson,
Prif Swyddog y Gwasanaethau Rheoliadol, AD a Chyfreithiol,
Polisi Adnoddau Dynol a Chorfforaethol
Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr,
Swyddfeydd Dinesig,
Angel Street,
Pen-y-bont ar Ogwr,
CF31 4WB.

Cyfeirnod Cyfreithiol: HIG001-1136